

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 7 Mawrth 2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU / GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: OFFER AMLDRO LLAWFEDDYGAETH Y TONSILIAU A'R ADENOIDAU: DEFNYDDIO OFFER SYDD WEDI BOD MEWN CWARANTIN A SAFONAU DADHEINTIO

Dyddiad dod i ben / Adolygu (7 Mawrth 2017)

I'w weithredu gan y Bwrdd:

Cadeiryddion
Prif Weithredwyr
Ysgrifenyddion Byrddau
Ysgrifennydd y Grŵp Ysgrifenyddion Byrddau
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Meddygol ac i'w ddosbarthu i lawfeddygon a staff Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Arweinwyr Dadheintio
Nyrsys a Meddygon Rheoli Heintiau
Prif Fferyllwyr Ysbytai
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau
Trosglwyddadwy ac Arweinwyr Rhaglen
Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd i Gyffuriau Iechyd Cyhoeddus Cymru
Galw Iechyd Cymru
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w dosbarthu i bractisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a phractisau dentyddol cyffredinol
Ymddiriedolaeth Ambiwylans

I'w weithredu gan Lywodraeth Cymru (neu er gwybodaeth)

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Proffesiynol ac Arweinwyr Polisi
Tîm Gweithrediadau AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Tîm Digidol AIGC

Angen gweithredu erbyn:

Gweler paragraffau 4 - 7

Anfonir gan: Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol a Jean White, Prif Swyddog Nyrsio

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

1. Yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (030) a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin 2015¹ nodwyd y gallai ysbytai fynd yn ôl i ddefnyddio offer aml dro ar gyfer llawdriniaethau y tonsiliau a'r adenoidau yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Cyngorol ar Bathogenau Peryglus (ACDP). Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ddefnyddio offer aml dro a gafwyd drwy'r contract newydd yn unig.
2. Er bod problemau ar y dechrau gyda'r cyflenwad o offer aml dro newydd, mae'r holl archebion a gyflwynwyd yn hydref 2015 bellach wedi cael eu cwblhau; eu harchwilio gan y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (SMTL) a'u danfon i'r ysbytai. Disgwylir y bydd yr holl Fyrddau Iechyd wedi dechrau defnyddio'r offer aml dro erbyn diwedd Chwefror.
3. Efallai y bydd llawfeddygon yn dewis gorffen defnyddio'r cyflenwad offer untro sydd ganddynt ar ôl i ddechrau, cyn belled â'u bod yn gyfforddus yn eu defnyddio ac nad ydynt wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau andwyol. Fodd bynnag, ni ddylid prynu unrhyw offer untro newydd.
4. Rydym ar ddeall bod rhai ysbytai wedi cadw eu hoffer tonsilectomi aml dro mewn storfa gwarantyn, tan y diwrnod y byddent yn mynd yn ôl i ddefnyddio offer aml dro, yn hytrach na'u taflu. Ond, mae'r sefyllfa yn parhau i fod fel y nodir yn CIC 030 h.y. rhaid cael gwared â hen gyflenwadau o offer sydd wedi cael eu cadw mewn cwarantyn ac ni ddylid eu defnyddio ar gyfer ymarfer clinigol. Bydd hyn yn sicrhau mai offer sydd wedi cael ei brofi a'i wirio i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â nodweddion perfformiad priodol fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer triniaethau llawfeddygol. Mae hefyd yn osgoi unrhyw risg sydd ynghlwm â defnyddio offer sydd wedi cael ei gadw am gryn amser heb ei ailbrosesu.
5. I droi at fater arall ar wahân, mae peth dadlau wedi bod ymysg Byrddau Iechyd yn sgil y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr gydag aelodau o'r ACDP ac arbenigwyr dadheintio ynghylch yr adolygiad diweddaraf i safonau dadheintio arfaethedig y DU. Bydd y safonau newydd yn cyflwyno dulliau newydd ar gyfer profi effeithiolrwydd prosesau glanhau, gydag argymhelliad ynghylch y lefel uchaf o brotein ar offer llawfeddygol. Mae'r gofynion yn parhau i roi sylw i'r pryderon posib am glefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD) a'r risg y gallai hyn ei beri i'r boblogaeth yn gyffredinol drwy gael cyswllt â phrotein CJD drwy'r gadwyn fwyd, a allai arwain yn y pen draw at fwy o achosion mewn pobl. Nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn hyd yma, ond nid yw hynny'n

¹ [Linc Llywodraeth Cymru i CIC\(030\)](#)

golygu nad oes angen parhau i wella safonau dadheintio. I ddechrau, dylid ystyried y lefelau protein newydd sydd wedi'u nodi yn y dogfennau hyn fel y targed i ymgynhyrchu ato oherwydd, ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut mae cyflawni hyn, neu os oes modd cyflawni hyn, drwy'r systemau sy'n cael eu defnyddio yn GIG Cymru. Dylid cynnwys y data sy'n deillio o'r technegau mesur newydd hyn fel rhan o system fonitro a threndio pob adran.

6. Ni ddylid cyfuno'r cyngor am y llwyth protein ar offer llawfeddygol ag ailgyflwyno offer amlbro ar gyfer llawdriniaethau'r tonsiliau a'r adenoidau. Yn wahanol i'r cyngor y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi'i roi o'r blaen (Diogelwch cleifion a lleihau'r risg o drosglwyddo CJD: Nodyn Cyfarwyddyd 196)², nid oes unrhyw awgrym wedi bod o'r angen i haenu gwahanol grwpiau o gleifion sy'n cael llawdriniaeth ac eithrio yng nghyswllt niwrolawdriniaeth a llawdriniaeth i gefn y llygad.

² [Cyfarwyddyd 196 NICE: Tach 2006](#)